

# Cynllun datblygu busnes ar gyfer twristiaeth sydd o fudd i'r gymuned yn yr ardal lechi

## 1. Cyflwyniad

Yn rhan o brosiect ymchwil gweithredol mwy sylweddol, mae'r ddogfen hon yn cyflwyno 'cynllun datblygu busnes' ar gyfer twristiaeth sy'n llesol i gymunedau yn yr ardal lechi, hynny yw, y tair bro chwarelyddol a'r pedwar porthladd allforio llechi cysylltiedig ar hyd arfordir Gwynedd a Chonwy.

- Y nod yw cynyddu buddion cymunedol o dwristiaeth drwy hyrwyddo cwmnïau lleol (h.y. dan berchnogaeth gymdeithasol neu deuluol) o wahanol feintiau o amgylch seilwaith twristiaeth gyhoeddus, e.e. Llwybr Llechi Eryri ac atyniadau mawr sy'n eiddo cymdeithasol e.e. Llwybr Beicio Mynydd Antur Stiniog.
- Mae ein cynllun datblygu busnes yn strategaeth/cynllun gweithredu ar gyfer pontio o a) y model twristiaeth echdynnol presennol i b) math newydd o dwristiaeth gyda buddion cymunedol mwy sylweddol ac ehangach. Nid yw'n gynllun busnes traddodiadol ar gyfer un prosiect unigol (gyda manyleb prosiect, dadansoddiad o'r farchnad, costau, dulliau ariannu, referniw arfaethedig).

## 2. Yr her: pam mae angen math newydd o dwristiaeth arnom?

Yr her yw bod y model twristiaeth presennol yng Ngwynedd a gogledd Cymru yn creu buddion cymunedol cyfyngedig oherwydd:

- Mae goruchafiaeth llety hunanarlwyo wythnosol yn golygu bod y rhan fwyaf o'r gwariant a'r elw gan dwristiaid yn mynd i berchnogion eiddo nad ydynt yn darparu swyddi yn y broses, fel gyda llety lle mae gwasanaethau ynghlwm. Carafanau a gwersylla fu mwyafrif y stoc gwllâu yng Ngwynedd erioed, ac roedd yn cyfrif am 80% o gyfanswm y gwllâu yn 2019. Ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae llety hunanarlwyo cyfnod byr wedi ehangu'n sylweddol ar draul llety â gwasanaethau fel gwestai a llety gwely a brechwast. Mae llety hunanarlwyo wedi treblu dros y 45 mlynedd diwethaf o 5,682 o wllâu yn 1975 i 18,467 yn 2019 tra bod llety â gwasanaethau wedi mwy na haneru o 15,221 gwely yn 1975 i 6,393 yn 2019<sup>i</sup>.
- Mae llety Airbnb arhosiad byr wedi ehangu i'r graddau lle maent yn cyfrif am drydedd ran o stoc dai rhent preifat Gwynedd ac yn achosi prinder tai i denantiaid lleol yn y tymor hir. Erbyn 2022, yn seiliedig ar gyfrifiadau Sefydliad Bevan<sup>ii</sup>, mae llety Airbnb yn cyfrif am 4.6% o stoc dai Gwynedd sy'n addas ar gyfer cartrefi tymor hir a 31% o stoc rhent preifat Gwynedd sy'n addas ar gyfer llety tymor hir - gan wneud Gwynedd yn un o fannau mwyaf poblogaidd Cymru am lety Airbnb. Mae'r pwysau ar y stoc rhent preifat ym mhen isaf y farchnad yn ddifrifol pan fo'r rhan fwyaf o eiddo Airbnb yn fythynnod neu dai teras 2-3 ystafell wely. Gellir cael incwm sy'n hafal i rent Lwfans Tai Lleol blwyddyn<sup>iii</sup> trwy rentu Airbnb am 10 wythnos; ond os rhentir yr eiddo am 15 wythnos, mae'r elw 50% yn fwy.

- Mae 72% o deithiau i Wynedd yn deithiau diwrnod<sup>iv</sup> ac mae datblygiad prosiectau diweddar wedi annog llif o bob math o dwristiaid i atyniadau sy'n eiddo i gorfforaethau mawr lle mae'r rhanbarth yn gefndir golygfaol. Atyniadau y mae angen gyrru iddyn nhw ar y cyfan yw'r rhain. Yn ôl Cynllun Rheoli Cyrchfan ac Adolygiad Partneriaeth Cyngor Gwynedd (2019, t. 8)<sup>v</sup> Canolfan Ymwelwyr Copa'r Wyddfa yw'r prif atyniad yng Ngwynedd o bell ffordd yn ôl nifer yr ymwelwyr gyda 654,077 o ymwelwyr yn 2017 - cynnydd o 40% ers 2014. Ond yr ail atyniad yng Ngwynedd yw Zip World a agorodd yn 2013 ac o fewn tair blynedd yn unig mae wedi cyrraedd 400,000 o ymwelwyr yn 2017 (ar draws tri safle). Roedd Zip World wedi gwneud yn well nag atyniadau sefydledig eraill fel Canolfan Ymwelwyr y Mynydd Gwefru (3ydd atyniad mwyaf poblogaidd gyda 250,000 o ymwelwyr yn 2017) a Chastell Caernarfon (y 4ydd mwyaf poblogaidd gyda 204,675 ymweliad yn 2017).
- Mae'n bwysig nodi bod Airbnb yn crynhoi yn hytrach na gwasgaru cyfoeth eiddo mewn cymunedau ac yn dargyfeirio rhywfaint ohono ymaith yn llwyr. Yn ôl Adroddiad Bevan<sup>vi</sup>, sef yr un a gyfeiriwyd ato'n flaenorol, mae cwmnïau gyda llawer o eiddo - h.y. cwmnïau proffesiynol sy'n rheoli mwy na 100 eiddo – yn arbennig o bwysig mewn mannau lle mae crynodiad mawr o lety Airbnb fel Gwynedd lle maen nhw'n rheoli 56% o eiddo sy'n addas ar gyfer llety tymor hir. Mae'r rhan fwyaf o berchnogion tai Airbnb sy'n addas ar gyfer llety tymor hir yn byw yng Nghymru, ond mae talp sylweddol - 17% ar gyfartaledd ar draws Cymru (data Gwynedd ddim ar gael) - yn cael eu rheoli gan rywun o'r tu allan i Gymru.
- Mae twristiaeth yn creu swyddi cyflog isel, tymhorol a rhan-amser yn bennaf ac yn cyflogi 19% o'r gweithlu yng Ngwynedd a 22% yn Ynys Môn<sup>vii</sup>. Mae'r darlun cyffredinol yn nodedig yng Ngwynedd ac Ynys Môn lle mae'r gyfran sydd wedi eu cyflogi mewn 'diwydiannau twristiaeth a lletygarwch' yn llawer uwch nag yng nghanolfannau trefol mawr poblog Cymru fel Caerdydd lle mae'n cyfrif am 11%, sef cyfartaledd Cymru. Bu cyflogau cyfartalog ym meysydd twristiaeth a lletygarwch yng Nghymru<sup>viii</sup> yn cynyddu'n araf iawn yn negawd gyntaf y mileniwm newydd ond yn 2021 roedd yn dal i fod yn llai na £10 yr awr pan oedd cyflog cyfartalog Cymru yn £11 yr awr. Mae nifer fawr o swyddi twristiaeth a lletygarwch yn rhan-amser, sef 55% o swyddi twristiaeth a 61% mewn lletygarwch.
- Gwerthusir twristiaeth mewn modd elfennol iawn trwy ddangosyddion STEAM sy'n nodi cyfaint mewn niferoedd a gwerth cyfanswm gwariant sy'n awgrymu ar gam fod mwy yn well heb ystyried costau amgylcheddol na buddion cymunedol. Y Dangosyddion Perfformiad Allweddol o fethodoleg STEAM yw 1) nifer yr ymwelwyr, 2) nosweithiau twristiaid, 3) dyddiau twristiaid a 4) gwerth ariannol gwariant. Yr awgrym yw, os yw'r niferoedd hyn yn cynyddu mae twristiaeth yn gweithio. Mae Economi Ymwelwyr Gynaliadwy Gwynedd 2035 – Cynllun Strategol<sup>ix</sup> yn cydnabod terfynau dangosyddion STEAM ac yn awgrymu cyfres fwy cynhwysfawr o ddangosyddion perfformiad sy'n amrywio o golli cynefinoedd i gyflogau cyfartalog yn y sector twristiaeth. Nid yw'n glir sut y caiff y dangosyddion newydd hyn eu pwysoli yn erbyn yr hen ddangosyddion ynghylch gwerth ariannol sy'n dal i gael eu cynnwys.


### 3. Y cyfle: creu math newydd o ecosystem dwristiaeth o sylfaen bresennol

Mae hanes, topograffi, a sylfaen y gweithgareddau a'r cysylltiadau presennol yn diffinio'r Ardal Lechi. Mae Llwybr Llechi Eryri yn llwybr cerdded a grëwyd yn ddiweddar sy'n cysylltu ardaloedd o

harddwch naturiol, treftadaeth ddiwydiannol ac amrywiaeth o aneddiadau yn y tair bro chwarelyddol. Mae'r Llwybr Llechi yn diffinio cylch mewnol yr ardal hon sy'n cysylltu'r hen fröydd chwarelyddol. Mae'r cylch allanol o'i amgylch yn ffinio ag arfordir Gwynedd a Chonwy a llwybr arfordirol Cymru lle mae gennym y pedwar porthladd lle arferid allforio llechi. Mae'r cylchoedd mewnol ac allanol wedi'u cysylltu gan rwydweithiau trafndiaeth presennol neu segur (ffyrdd, rheilffyrdd, a llwybrau beiciau a cherdded) i fyny ac i lawr y dyffrynnoedd ar batrwm olwyn gyda both a breichiau.

Ein bwriad yw cysylltu'r holl elfennau hyn mewn ecosystem a fydd yn datblygu cwmnïau sefydledig presennol sydd ym mherchnogaeth teuluoedd neu gymunedau lleol a meithrin rhai newydd o bob maint, o lety gwely a brecwast teuluol i atyniadau mawr lle mae'r asedau mewn perchnogaeth gymunedol.

Ffigur 1: Yr Ardal Lechi



Mae'r ecosystem yn gweithio ar egwyddorion sy'n wahanol iawn i'r model twristiaeth presennol:

- **Gwasgaru yn hytrach na chrynhoi daearyddol.** Mae datblygiadau diweddar wedi canolbwyntio ar ychydig o brosiectau sylweddol ar safleoedd mawrion. Yn hytrach, mae'r ecosystem yn ymwneud â gwasgaru cyfleusterau a gweithgareddau ar draws ardal ddiffiniedig lle mae cysylltiadau cymdeithasol, daearyddol ac economaidd agos eisoes rhwng yr aneddiadau. Y canlyniad fyddai gwasgaru niferoedd a chyfleusterau twristiaid o fannau o grynodiad mawr fel Llanberis er budd yr hyn sydd ar hyn o bryd yn aneddiadau y gyrrir drwyddynt fel Bethesda ac ardaloedd llai datblygedig fel dyffryn Nantlle.

- **Gwasgaru buddion economaidd ar draws amrywiaeth o weithgareddau yn hytrach nag un cwmni yn tynnu'r holl arian o safle.** Y cwestiwn gyda'r ecosystem yw nid faint o refeniw y gallwch ei dynnu o atyniad ar un safle ond sut y gallwch chi feithrin cysylltiadau cefnogol rhwng gwahanol atyniadau a rhwydwaith cynhwysfawr o wasanaethau twristiaeth (caffis, tafarndai, llety, siopau o bob math, gwasanaeth cludo bagiau, gweithgareddau dan arweiniad) sydd mewn perchnogaeth neu o dan reolaeth leol. Y nod yw meithrin gallu cwmnïau teuluol a chymunedol sefydledig i lenwi bylchau mewn gwasanaethau a datblygu busnesau sy'n eiddo i'r ardal.
- **Creu isadeiledd cymunedol gydag apêl dwristiaid nid atyniadau twristiaid yn unig.** Yr her yw sut i wneud lleoedd yn ddeniadol i fyw ynddynt gydol y flwyddyn trwy greu amrywiaeth o isadeiledd diwylliannol, awyr agored, trafndiaeth a chymdeithasol sy'n hygyrch i bobl leol ond a fydd hefyd yn denu twristiaid o'r tu allan i'r ardal. Mae hygyrchedd i bobl leol yn golygu pwyslais cryf ar atyniadau a gweithgareddau rhad ac am ddim fel llwybrau cerdded a beicio. Does arnom ni ddim eisiau gwneud lleoedd sy'n ddeniadol i dwristiaid am 4 mis y flwyddyn gydag atyniadau drud i dwristiaid yn unig lle mae'r tocynnau'n costio crocbris.
- **Hyrwyddo safleoedd naturiol / treftadaeth yn hytrach nag atyniadau ymwelwyr a allai fod yn unrhyw le o gwbl.** Mae arnom ni eisiau denu ymwelwyr i safleoedd naturiol a threftadaeth (coedwigoedd, mynyddoedd, traethau, safleoedd archaeoleg ddiwydiannol) wrth hyrwyddo gweithgaredd lle mae pwyslais ar werthfawrogiad (llwybrau cerdded/beicio mynydd, syrffio, dehongli treftadaeth, celfyddydau perfformio). Dylai'r rhain oll gael ôl troed ecolegol ysgafn a bod yn gysylltiedig â hanes, diwylliant a chymuned leol yn lle cynnig 'anturiaethau' safonol sy'n gofyn am isadeileddau trwm penodol (e.e. Zip World neu Surf Snowdonia).

Mae cynnig newydd a gwahanol i dwristiaid yn gredadwy oherwydd byddwn yn adeiladu ar sylfaen o gwmnïau a rhwydweithiau o fentrau cymdeithasol sefydledig ym mhentrefi a threfi Llwybr Llechi Eryri ac yn y cylch allanol o aneddiadau i lawr i'r porthladdoedd sydd â chysylltiadau hanesyddol â'r diwydiant llechi. Mae'r sylfaen hon eisoes yn cynnwys (a) micro-gwmnïau lleol o lety gwely a brecwast teuluol i hundai sy'n eiddo i'r gymuned, er enghraifft menter gymdeithasol Yr Orsaf ym Mhen-y-groes (b) rhwydweithiau o fentrau cymdeithasol yn y dyffrynnoedd amrywiol gan gynnwys Cwmni Bro a Phartneriaeth Ogwen ac (c) ambell atyniad cymdeithasol fel Galeri Caernarfon/Cae Llechi, safle beicio mynydd Antur Stiniog neu'r cwrs beicio mynydd cymunedol ym Mhenmachno.

#### 4. Ymchwil gweithredol: datblygu busnes mewn dau gylch consentrig

Mae creu ecosystem dwristiaeth newydd yn dasg heriol. Rydym yn cydnabod bod angen gweithredu i ddatblygu busnesau o wahanol fathau ar wahanol raddfeydd yn y bröydd chwarelyddol dros gyfnod o 5-10 mlynedd. Yn ymarferol, byddem yn gwahanu datblygiad (a) Llwybr Llechi Eryri sy'n cysylltu aneddiadau yn y tair bro chwarelyddol fel prosiect angori oddi wrth (b) datblygu ardaloedd cysylltiedig y mae ffyrdd a rheilffyrdd (mewn defnydd neu segur) yn eu cysylltu â'r porthladdoedd llechi.

Yma mae gennym ni ddau gylch consentrig: cylch mewnol y Llwybr Llechi a chylch allanol o ardaloedd yng Ngwynedd a Chonwy sy'n gysylltiedig â'r diwydiant llechi. Mae'r paragraffau isod yn amlinellu amcanion tymor canolig a gweithgareddau ymchwil gweithredol i gyflawni'r amcanion

hynny yn y cylch mewnol ac allanol. Nid ydym ni wedi ychwanegu costau, gan gynnwys cyflogau, oherwydd caiff hyn i gyd ei gyfrifo pan fyddwn yn gwneud ein cais mawr i UKRI am gyllid pum mlynedd ar ddechrau'r haf. Bryd hynny, byddwn yn cywain ceisiadau gwahanol ynghyd mewn pecyn unedig sydd o fewn cwmpas yr adnoddau sydd ar gael.

#### 4.1. Cylch mewnol y Llwybr Llechi

Yr amcan hirdymor yw troi Llwybr Llechi Eryri yn brofiad twristiaeth gymunedol ehangach gyda'r llwybr yn atyniad craidd sy'n cynnal rhwydwaith o fusnesau sefydledig.

Dim ond trwy ymchwil gweithredol y gellir cyflawni'r nod o greu profiad twristiaeth gymunedol i gefnogi'r trawsnewid, gyda'r amcanion tymor canolig canlynol:

1. Gwella'r seilwaith daearyddol a hawlio statws Llwybr Cenedlaethol.
2. Datblygu cynnig cynhwysfawr o wasanaethau twristiaeth a ddarperir gan rwydwaith o fusnesau sefydledig, gan adeiladu ar y sylfaen ddarniog bresennol o fusnesau sy'n cynnig gwasanaethau twristiaeth ar neu o amgylch y Llwybr.
3. Marchnata nid yn unig y Llwybr, ond y profiad twristiaeth gymunedol ehangach, gan bwysleisio ei ôl troed ecolegol ysgafn a sensitifrwydd i natur a diwylliant.

Mae'r ymchwil yn adeiladu ar y sylfaen wybodaeth a'r gwaith marchnata presennol a wneir gan hyrwyddwr Llwybr Llechi Eryri (gweler <https://snowdoniaslatetrail.org/cymraeg/>). Er mwyn cyflawni'r amcanion tymor canolig hyn, rydym wedi nodi'r saith gweithgaredd ymchwil gweithredol canlynol:

1. **Gwella seilwaith daearyddol y Llwybr ac uwchraddio ei statws (Blwyddyn 1-3)**
  - Deall beth sydd ei angen i gyflawni safonau Llwybr Cenedlaethol (Blwyddyn 1), pennu costau angenrheidiol a gwneud cais i gyllidwyr i gyflawni gwelliannau<sup>x</sup> (Blwyddyn 2-3).
  - Datblygu pecyn tywys teithwyr gyda gwybodaeth gynhwysfawr am wasanaethau llwybrau sefydledig presennol, e.e. bwyd, llety, trafndiaeth, gweithgareddau hamdden (Blwyddyn 2).
  - Ychwanegu byrddau gwybodaeth i ddenu cerddwyr i ymweld â lleoedd oddi ar y Llwybr (Blwyddyn 1-3).
2. **Ymchwil i'r galw presennol a'r potensial (Blwyddyn 1)**
  - Deall pwy sy'n defnyddio'r atyniadau ar hyn o bryd (yn ystod y tymor ymwelwyr a'r tu allan, ymwelwyr a phobl leol, cerddwyr pellter hir a byr ac ati) a'u hanghenion a'u gofynion. Ystyried anghenion llety o ran cerdded (meysydd gwersylla, llety gwely a brecwast, hundai), bwyd, siopau pentref ar gyfer cyflenwadau, cludo bagiau, trafndiaeth ac anghenion sy'n ymwneud mwy â phrofiad fel digwyddiadau diwylliannol a hamdden a dehongli safleoedd treftadaeth. Deall y gwahanol fathau o ddefnyddwyr (gan gynnwys darpar ddefnyddwyr) a'u gofynion, gan gydnabod y dylai'r Llwybr fod yn hygyrch i bobl o bob oed ac incwm.

### 3. Ymchwilio i'r busnesau sy'n cynnig gwasanaethau ar neu ger y llwybr (Blwyddyn 2)

- Dynodi'r busnesau presennol a allai wasanaethu anghenion cerddwyr yn yr aneddiadau y mae'r llwybr yn mynd drwyddynt, gan sefydlu faint ohonynt sy'n fusnesau sefydledig (h.y. dan reolaeth neu berchnogaeth teuluoedd neu'r gymuned).

### 4. Adnabod cyfleoedd datblygu busnes (Blwyddyn 2)

- Ar ôl cymharu dymuniadau twristiaid gyda'r gwasanaeth a gynigir, adnabod bylchau o ran darpariaeth y gellid eu llenwi gan fusnesau newydd neu drwy i fusnesau sefydledig ehangu. Sefydlu rhaniad llafur rhwng busnesau cymunedol a theuluol oherwydd e.e. mae'r gymuned yn fwy addas i brynu'r dafarn ym Mhenmachno neu ailagor y caffi yng Nghroesor, ond mae busnesau teuluol yn addas iawn i reoli llety gwely a brecwast.

### 5. Busnesau Newydd (Blwyddyn 3-5)

- Ar ôl adnabod cyfleoedd busnes, llunio'r achosion busnes mwyaf addawol a gweithio gydag entrepreneuriaid teuluol neu gymunedol ar gynlluniau busnes ar gyfer egin-gwmnïau, cysylltu rhanddeiliaid a mynd at arianwyr.

### 6. Datblygu a chyflwyno cynnig marchnata estynedig (Blwyddyn 3-5)

- Gan adeiladu ar y llwyfannau a'r ymgyrchoedd marchnata presennol, ehangu'r cynnig marchnata cyfredol sy'n canolbwyntio ar y llwybr i fod yn gynnig marchnata ehangach sy'n hysbysebu Llwybr Llechi Eryri yn rhan o brofiad twristiaeth gymunedol ehangach yn y bröydd chwarelyddol.

### 7. Cynllunio a chynnal ymgysylltiad cymunedol parhaus (Blwyddyn 1-5)

- Dylai datblygiad y llwybr fod yn rhan o sgwrs barhaus gyda'r gymuned leol, nid yn ddim byd ond ymgynghoriad am fanylion yr hyn sydd wedi'i benderfynu ac a fydd yn digwydd iddyn nhw. Datblygu cynllun gweithredu i ddefnyddio'r cyfryngau a'r ffyrdd sydd eisoes yn bodoli o ymgysylltu â'r gymuned (e.e. y gwasanaeth darlledu cymunedol digidol, Bro Cast Ffestiniog) i gael adborth a mewnbwn parhaus gan y cymunedau lleol.
- Ymchwilio i strwythurau ymgysylltu â'r gymuned o Safleoedd Treftadaeth y Byd eraill a gwerthuso prosesau Gwynedd o ran yr arferion gorau.

## 4.2. Cylch allanol ardaloedd Gwynedd a Chonwy sy'n gysylltiedig â'r diwydiant llechi

Mae'n gwbl hanfodol edrych yn ehangach ar yr ardal y tu hwnt i'r bröydd chwarelyddol os mai ein nod yw newid y model twristiaeth (yn hytrach na datblygu Llwybr Llechi Eryri yn unig). Mae newid y model wedyn yn gofyn am flaenoriaethu perchnogaeth gymunedol o asedau mewn dau faes

allweddol lle cynhyrchir rhan fawr o'r elw a'r arian o dwristiaeth ar hyn o bryd: (a) tai lle mae landlordiaid sy'n eu gosod am dymor byr yn cael y rhan fwyaf o'r refeniw a'r elw gan ymwelwyr hunanarlwyo a (b) yr atyniadau twristiaeth mawr lle mae perchnogion corfforaethol o du hwnt i'r ardal yn ymddwyn yn debyg iawn i berchnogion chwareli a mwyngloddiau y dyddiau fu. Mae perchnogaeth asedau yn hanfodol os yw cymunedau am elwa o dwristiaeth a bod ganddynt unrhyw rym go iawn wrth ddiwygio'r model twristiaeth.

Ar yr un pryd, rhaid i ni beidio ag anghofio c) pwysigrwydd cynnal a datblygu'r microfusnesau teuluol a chymunedol niferus a fydd bob amser yn rhan bwysig o gynnig amrywiol. At hyn, mae angen hefyd ystyried d) ail-greu cysylltiadau trafndiaeth (fel defnyddio rheilffyrdd segur) sy'n cysylltu'r ardal ac a allai chwarae rhan bwysig ar ffurf llwybrau beicio a cherdded wrth hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy.

Yn fwy penodol, ar ôl ymchwil ac ymgynghori â rhanddeiliaid lleol, rydym wedi nodi'r amcanion tymor canolog canlynol:

1. Datblygu atyniadau mawr sy'n eiddo i'r gymuned (ar fodel Galeri Caernarfon). Mae hyn yn gofyn am arian cyfalaf i adeiladu sylfaen gredadwy o atyniadau twristiaeth cymunedol y gellir eu marchnata wedyn yn rhan o gynnig twristiaeth gymunedol cynhwysfawr.
2. Datblygu llety gwyliau sy'n eiddo i'r gymuned sy'n gyfrifol yn gymdeithasol; rhentu yw'r gost fawr mewn gwyliau hunanarlwyo ac mae cael elw o renti yn strategol i leihau dibyniaeth bresennol mentrau cymunedol yn y bröydd chwarelyddol a thu hwnt ar gyllid grant ar gyfer gwariant cyfalaf.
3. Gwau ynghyd gwahanol aneddiadau ac ardaloedd ar gyfer twristiaid a phobl leol trwy ailagor hen gysylltiadau trafndiaeth fel rheilffyrdd segur, gan gysylltu'r chwareli â'r pedwar porthladd. Y nod yma yw nid yn unig gwella trafndiaeth gyhoeddus neu ddarparu gwasanaeth cludo bagiau ond agor llwybrau beicio ac ati sy'n annog math mwy egniol o dwristiaeth.
4. Datblygu trefn fentora a chynghor busnes ar gyfer cwmnïau micro sefydledig. Rydym yn cydnabod bod ar y rhan fwyaf o gwmnïau micro eisiau aros yn fychan ond credwn y gallai llawer wella eu cymhwysedd a'u cynnig i dwristiaid mewn ffyrdd sy'n rhoi mwy o sicrwydd i'r perchennog teulu.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, rydym wedi dynodi'r gweithgareddau ymchwil gweithredol canlynol:

1. **Posibiliadau ymchwil ar gyfer datblygu a pherchnogaeth eiddo cymunedol (Blwyddyn 1-2)**
  - Datblygu cynnig Partneriaeth Ogwen i brynu dau dŷ ar y tro gydag un yn llety gwyliau ac un arall i'w osod yn hir dymor i bobl leol a rhoi cynllun busnes i gyllidwyr morgeisi.
  - Ymchwilio i'r achos busnes dros adeiladu cabanau gwyliau newydd ar ffurf parciau bychain sy'n agos at fyd natur a chyfleusterau teithio llesol.

## 2. Posibiliadau ymchwil ar gyfer prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr sy'n eiddo i'r gymuned (Blwyddyn 1-2)

- Adnabod a chysylltu â chyllidwyr posibl, e.e. Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, gan esbonio'r hyn a gyflawnwyd gan fentrau cymdeithasol a'n huchelgais i wneud mwy. Ystyried pwyslais presennol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar ynni cymunedol a meddwl sut y gallai prosiectau cyfalaf twristaidd ymgorffori cynhyrchu ynni ynddynt.
- Cloriannau'r possibiliadau o gynnal gweithgareddau mewn detholiad o safleoedd segur neu sydd heb eu datblygu e.e. hen ffatri Ferodo rhwng Y Felinheli a Chaernarfon, chwarel Dorothea yn Nhalsarn a chwarel Glyn Rhonwy yn Llanberis. Ni ddylid anghofio chwaith am gyfleusterau presennol fel Marina Felinheli lle mae ychwanegu at ddatblygiad yn bosib.
- Adnabod y cysylltiadau posib rhwng Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO y bröydd chwarelyddol a Safleoedd Treftadaeth y Byd cyfagos y Cestyll Normanaidd – yn enwedig yng Nghaernarfon.

## 3. *Posibiliadau ymchwil ar gyfer adfywio'r cysylltiadau trafndiaeth presennol (Blwyddyn 1-2)*

- Adnabod cysylltiadau rheilffordd segur presennol a sut y gellid eu hailddatblygu trwy eu troi'n llwybrau cerdded a llwybrau beicio at ddefnydd ymwelwyr a lleol.
- Adnabod anghenion trafndiaeth preswylwyr heb geir a thwristiaid sydd am adael eu ceir, a gweld sut y gellid defnyddio datblygiad trafndiaeth gyhoeddus i helpu'r ddau grŵp.

## 4. Anghenion ymchwil a rhwystrau i gwmnïau bychain yn yr ardal (Blwyddyn 1-2)

- Cyfweld â chwmnïau bychain a chael gwybod am anghenion a rhwystrau.
- Defnyddio cynlluniau cymorth busnes presennol ac archwilio i'ribiliadau o ddatblygu gwasanaeth cymorth lleol i gwmnïau bychain, gan gynnwys cwmnïau yn cynghori ei gilydd, gyda phwyslais ar dwristiaeth.

## 5. Gweithredu o leiaf un prosiect datblygu eiddo cymunedol (Blwyddyn 3-5)

- Cael cytgord o ran rhanddeiliaid, cyllid a galluoedd fel y gallwn ddechrau a) prynu tai lleol yn heb amharu ar y farchnad osod tymor hir a b) efallai datblygu parc gwyliau bach.

## 6. Gweithredu un prosiect cyfalaf cymunedol mawr (Blwyddyn 3-5)

- Cael cytgord o ran rhanddeiliaid, cyllid a galluoedd ynghylch cynllun busnes datblygedig ar gyfer atyniad twristaidd mawr a dechrau ei weithredu.

## 7. Gweithredu cyswllt trafndiaeth newydd (Blwyddyn 3-5)

- Cael cytgord o ran rhanddeiliaid, cyllid a galluoedd ynghylch un prosiect trafndiaeth strategol a dechrau ei weithredu.



## 8. Datblygu a gweithredu gwasanaeth cefnogi microfusnesau lleol (Blwyddyn 3-5)

- Datblygu a gweithredu gwasanaeth cefnogi lleol i fusnesau bychain.

*Cafodd y cynllun datblygu busnes hwn ei ddrafftio yn ystod gaeaf 2024 ar ôl trafodaeth gan aelodau o'r prosiect ymchwil cymunedol ynghylch twristiaeth yn y tair bro chwarelyddol a thu hwnt. Ariennir y prosiect ymchwil cymunedol gan UK Research and Innovation, rhiant-gorff y cyngorau ymchwil academaidd yn y celfyddydau, y gwyddorau cymdeithasol a naturiol.*

Mae'r cynllun yn waith ar y gweill ac mae hon yn fersiwn ddrafft rhif 9, a luniwyd ar y 27<sup>ain</sup> o Chwefror 2024. Os oes gennych awgrymiadau neu os hoffech ragor o wybodaeth neu drafodaeth ar ein prosiect, cysylltwch â Cynan Jones: [post@ogwen.org](mailto:post@ogwen.org)

---

### Nodiadau:

<sup>i</sup> Ein cyfrifiad yn seiliedig ar 'Gwynedd Bedstock Survey 2018/19.' Gweler hefyd adroddiad y sefydliad ymchwil economaidd 'Briefing paper 1: for community researchers. Tourism as it is in Gwynedd'.

<https://foundationaleconomyresearch.com/wp-content/uploads/2023/04/Tourism-briefing-1-Gwynedd-tourism-March-2023-p.pdf>

<sup>ii</sup> <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2022/09/Holiday-lets-and-the-private-rental-sector.pdf>

<sup>iii</sup> Mae'r Lwfans Tai Lleol yn amcangyfrif o'r hyn y gallai landlord preifat ei gael yn rhent yn y farchnad hirdymor leol. Fe'i cyfrifir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau fel sail ar gyfer talu budd-dal tai.

<sup>iv</sup> <https://foundationaleconomyresearch.com/wp-content/uploads/2023/04/Tourism-briefing-1-Gwynedd-tourism-March-2023-p.pdf>, t.3.

<sup>v</sup> [https://www.visitsnowdonia.info/sites/default/files/2020-](https://www.visitsnowdonia.info/sites/default/files/2020-11/Destination%20Management%20Plan%20and%20Partnership%20Review%202019.pdf)

[11/Destination%20Management%20Plan%20and%20Partnership%20Review%202019.pdf](https://www.visitsnowdonia.info/sites/default/files/2020-11/Destination%20Management%20Plan%20and%20Partnership%20Review%202019.pdf)

<sup>vi</sup> <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2022/09/Holiday-lets-and-the-private-rental-sector.pdf>, tt. 13-14.

<sup>vii</sup> Ein cyfrifiad ei hunain yn seiliedig ar ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Gweler hefyd y sefydliad ymchwil economaidd 'Briefing paper 1: for community researchers. Tourism as it is in Gwynedd'.

<https://foundationaleconomyresearch.com/wp-content/uploads/2023/04/Tourism-briefing-1-Gwynedd-tourism-March-2023-p.pdf>

<sup>viii</sup> Cyfrifiad ei hun yn seiliedig ar ddata'r ONS. Gweler hefyd adroddiad y sefydliad ymchwil economaidd 'Briefing paper 1: for community researchers. Tourism as it is in Gwynedd'. <https://foundationaleconomyresearch.com/wp-content/uploads/2023/04/Tourism-briefing-1-Gwynedd-tourism-March-2023-p.pdf>

<sup>ix</sup> [https://www.visitsnowdonia.info/sites/default/files/2023-09/Cynllun%20EYCGE%20Saesneg\\_0.pdf](https://www.visitsnowdonia.info/sites/default/files/2023-09/Cynllun%20EYCGE%20Saesneg_0.pdf)

<sup>x</sup> Ceir rhestr fanylach o'r camau gweithredu yn ein dogfen Cynllun Datblygu'r Llwybr Llechi sydd ar gael ar gais.